

Diffodd tanau'r dyfodol

Atal yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Gorffennaf 2025



Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi o dan adran 17 (2) (d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gallai hefyd hysbysu adrodd o dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei aildddefnyddio, mae'n rhaid i'ch aildddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn aildddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad	4
Ffeithiau a ffigurau allweddol	6
Ein canfyddiadau	7
Argymhellion	15
1 Ynglŷn â'n gwaith	18
Amdanom ni	20

Cipolwg ar yr archwiliad

Yr hyn y gwnaethom edrych arno

- 1 Fe wnaethom edrych ar y dull a fabwysiadwyd gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) i dargedu ei waith atal tân. Fe wnaethom ganolbwyntio ar dargedu'r bobl fwyaf agored i niwed i helpu i leihau tanau a lleihau anafiadau difrifol neu farwolaeth.
- 2 Ceir sawl dull i waith atal gan yr Awdurdod. Fe wnaethom ganolbwyntio ein gwaith ar edrych sut mae'r Awdurdod yn gweithio gydag aelwydydd unigol. Ni wnaethom ganolbwyntio ar waith atal arall, fel addysg ieuenctid neu leihau tanau gwyllt. Ni wnaethom edrych ar atal chwaith i leihau gweithgarwch achub yr Awdurdod, fel gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd.
- 3 Fe wnaethom gwblhau ein cyfweiliadau ym mis Mawrth 2025. Roedd hyn cyn i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhdyi gyhoeddi eu hadroddiad ar yr Awdurdod ym mis Mai 2025. O ganlyniad, nid yw ein canfyddiadau yn manteisio ar eu hadroddiad, fel eu canfyddiadau o ran atal.

Pam mae hyn yn bwysig

- 4 Mae atal yn hanfodol bwysig oherwydd bod ganddo'r potensial i achub bywydau ac atal anafiadau difrifol rhag digwydd. Mae ganddo'r fantais hefyd o osgoi difrod i gartrefi pobl a'r tarfu a achosir gan golli eiddo. Gall hyn arwain at fanteision i unigolion, teuluoedd, a chymunedau ehangach.
- 5 Gall targedu ymdrechion at y bobl fwyaf agored i niwed hefyd fod yn arwydd bod yr Awdurdod yn sicrhau gwerth da am arian. Mae hyn oherwydd bod adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod yn cael eu canolbwyntio ar y risgiau cymunedol mwyaf.

- 6 Gellir cysylltu bod yn agored i niwed â ffurfiau amrywiol o anfantais hefyd. Mae targedu ymdrechion at bobl agored i niwed yn helpu i ddangos bod yr awdurdod yn gweithredu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol sydd arno o ran cydraddoldeb. Mae atal hefyd yn un o'r bum ffordd o weithio i helpu'r Awdurdod ddangos ei fod yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod

- 7 Mae angen i'r Awdurdod wneud mwy i dargedu ei adnoddau lle mae eu hangen fwyaf. Mae wedi dioddef trosiant staff uchel sydd wedi effeithio ar sut y gall gryfhau ei ddull. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn gwneud rhai newidiadau a allai fod yn gadarnhaol.

Yr hyn yr ydym yn ei argymhell

- 8 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i gynorthwyo'r Awdurdod i wella ei ddull. Mae hyn yn cynnwys asesu lle y gallai bylchau fodoli yn null presennol yr Awdurdod a chynllunio i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Rydym hefyd yn argymhell bod yr Awdurdod yn cryfhau ei ddealltwriaeth o'r gwerth a sicrhau gan ei weithgareddau atal i helpu i dargedu camau ymhellach i gael yr effaith fwyaf.

Ffeithiau a ffigurau allweddol

- 31% – y gostyngiad i danau annedd rhwng 2009-10 a 2023-24
- 53% – y gostyngiad i farwolaethau ac anafusion mewn tanau o 2009-10 a 2023-24
- 10 - nifer y ffactorau risg a ddefnyddir gan yr Awdurdod i nodi pobl sydd yn y perygl mwyaf
- Tri neu fwy – nifer y ffactorau risg sydd eu hangen ar aelwyd i gael ei ddosbarthu'n uchel ei risg
- 31% – cyfran yr ymweliadau diogelwch cartref a dargedwyd at aelwydydd uchel eu risg yn 2024-25
- 25% – cyfran yr ymweliadau diogelwch cartref ag aelwydydd heb i unrhyw ffactorau risg gael eu nodi yn 2024-25

Ein canfyddiadau

Mae gan yr Awdurdod ddull rhesymol o nodi pwy sydd mewn perygl, ond mae rhai bylchau pwysig yn parhau

- 9 I nodi pobl mewn perygl, mae angen i Awdurdodau Tân ac Achub ddeall dwy elfen. Yn gyntaf, y ffactorau sy'n debygol o wneud pobl i fod mewn perygl uwch o dân. Yn ail, sut i nodi'r unigolion sy'n cael profiad o'r ffactorau hyn. Mae deall y ddau yn allweddol i weithgareddau targedu Awdurdodau Tân ac Achub, fel ymweliadau diogelwch cartref, at y rhai sydd eu hangen fwyaf.
- 10 Nid yw'r Awdurdod wedi darparu manylion llawn sut y mae'n nodi pa ffactorau sy'n rhoi pobl mewn perygl uwch o ddioddef tân. Mae'n ymddangos bod yr Awdurdod yn defnyddio data o danau yn y gorffennol yn bennaf. Mae dadansoddi'r rhesymau am danau yn y gorffennol yn rhan hanfodol o ddeall y ffactorau sy'n rhoi pobl mewn perygl o danau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n ganllaw anghyflawn. Er enghraifft, gallai grŵp poblogaeth fod mewn perygl uwch o ddioddef tân heb gael ei ddangos yn y data yn eglur oherwydd poblogaeth fach yn lleol. Nid yw data o'r gorffennol yn ffynhonnell dda o wybodaeth am risgiau sydd ddim ond newydd ddod i'r amlwg chwaith. Mae'r Awdurdod yn agored i ystyried â ffactorau risg nad ydynt ar y ei restr. Fodd bynnag, nid yw'n asesu'n rhagweithiol pa ffactorau allai fod ar goll o ddata ar danau yn y gorffennol.
- 11 Mae'r Awdurdod yn defnyddio atgyfeiriadau gan bartneriaid a data i nodi aelwydydd sydd mewn perygl o dân. Mewn egwyddor, gall y dull deuol fod yn ddefnyddiol gan y gallai un ffynhonnell lenwi bylchau yn y llall. Fodd bynnag, ceir ffactorau sy'n golygu bod dull yr Awdurdod yn debygol o fod yn anghyflawn.

- 12 Er enghraifft, gall y defnydd o atgyfeiriadau i ddod o hyd i aelwydydd risg uwch gynnwys rhai gwendidau. Mae'r Awdurdod angen y partneriaid iawn yn cymryd rhan i osgoi cyfyngu ei weithgarwch. Mae hefyd angen rhwydwaith sy'n ddigon mawr i gwmpasu'r holl ardal a wasanaethir. Os nad yw partneriaid yn gwneud atgyfeiriad, gallai'r Awdurdod fethu unigolyn risg uwch. Mae pobl sy'n byw mewn sefyllfaoedd ynysig hefyd yn llai tebygol o fod yn hysbys i bartneriaid neu i aelodau'r gymuned, sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl. Gall atgyfeiriadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid a swyddogion wneud penderfyniadau anodd am lefel y risg a wynebir.
- 13 Yn ystod rhai cyfweiliadau, clywsom fod nifer yr atgyfeiriadau gan rai partneriaid allweddol wedi gostwng yn ddiweddar. Mewn ymateb, mae gan yr Awdurdod swyddog bellach i hyrwyddo mwy o atgyfeiriadau a helpu i wneud atgyfeiriadau yn fwy cywir. Gallai hyn ddechrau helpu i liniaru rhai o gyfyngiadau atgyfeiriadau, er bod hyn ar gam cynnar.
- 14 Mae defnydd yr Awdurdod o ddata yn addawol o'r safbwynt ei fod yn cyfuno sawl gwahanol gronfa ddata. Serch hynny, ceir llawer o ffactorau risg nad yw'r cronfeydd data yn eu cwmpasu. Efallai na fydd rhai data yn gwbl gyflawn, yn gywir nac yn amserol chwaith. Mae'r Awdurdod yn bwriadu ymchwilio i rai o'r cyfyngiadau hyn ymhellach. Fodd bynnag, nid yw wedi asesu'n llawn pa un a yw ei ddull yn peryglu gogwyddo ei waith oddi wrth grwpiau mewn perygl nad ydynt yn amlwg mewn cronfeydd data presennol.
- 15 Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau cyfyngedig i gynnwys gwahanol randdeiliaid. Mae wedi ymgynghori ar rywfaint o weithgarwch, fel ei Gynllun Strategol. Fodd bynnag, roedd gan yr ymgynghoriad hwn gwmpas eang ac ni edrychodd yn benodol ar sut y gellid gwneud dull yr Awdurdod o atal yn fwy cynhwysol. Ni ddangosodd chwaith bod ei ymgynghoriad wedi cynnwys pob grŵp â nodweddion gwarchodedig. Mae cyfranogiad cymunedol gan yr Awdurdod yn helpu i sicrhau dealltwriaeth fwy cyflawn o'r ardal a'i risgiau. Gallai cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig helpu i ddod o hyd i ffactorau risg nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd sy'n rhoi pobl mewn mwy o berygl. Gall cyfranogiad hefyd helpu'r Awdurdod i sicrhau bod ei ymweliadau diogelwch cartref yn gynhwysol yn eu darpariaeth.

Mae'r Awdurdod yn gweithio i flaenoriaethu aelwydydd risg uwch a mwy cymhleth, ond efallai nad yw ei ddewis presennol yn helpu hun

- 16 Mewn egwyddor, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno dull gymharol eglur o flaenoriaethu ei waith atal. Mae'n categoreiddio aelwydydd yn seiliedig ar eu lefel o risg a pha mor gymhleth fyddai cynnal archwiliad diogelwch cartref. Os yw'r Awdurdod o'r farn bod aelwyd yn fwy cymhleth, mae'n rhoi cymorth mwy arbenigol i'r aelwyd yn gyffredinol. Os yw o'r farn bod aelwyd yn risg uwch, mae'n cysylltu â'r aelwyd yn gyflymach yn gyffredinol. Gall blaenoriaethu effeithiol chwarae rhan allweddol i sicrhau bod pobl mewn perygl uwch yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt cyn i ddigwyddiadau godi.
- 17 Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar iawn y gwnaeth yr Awdurdod gofnodi ei ddull o flaenoriaethu. Drafftwyd rhai dogfennau a rannwyd gyda ni tra roedd ein harchwiliad yn cael ei gynnal. Mae hyn yn codi'r cwestiwn o ba un a yw'r Awdurdod wedi ymwreiddio'r dull y mae wedi ei gyflwyno ar bapur yn gyson.
- 18 Mewn rhai achosion, mae'n llai eglur sut mae polisïau'r Awdurdod yn dangos ei ddull seiliedig ar flaenoriaethau. Nid yw bob amser yn eglur bod y polisïau y mae'r Awdurdod yn eu dilyn yn dangos ei fod yn cyfeirio ei adnoddau i dargedu'r rhai sydd yn y perygl mwyaf. Er enghraifft:
 - Nid oes gan yr Awdurdod bolisi i ailymweld â chartrefi ar ôl cyflawni ymweliad diogelwch. Fodd bynnag, mae llawer o'r ffactorau a all wneud unigolion yn risg uwch, fel cyflyrau iechyd ac effeithiau oedran, yn debygol o waethygu dros amser. Gallai rhai o fanteision yr ymweliad gwreiddiol leihau dros amser, fel pobl yn anghofio cyngor neu offer ddim yn gweithio mwyach. Gallai ailadrodd ymweliad helpu i ganolbwyntio gweithgarwch yr Awdurdod yn fwy effeithiol ar leihau risg.
 - Mae'r Awdurdod yn cynnig ymweliad diogelwch cartref i unrhyw un sy'n gofyn am un. Gallai rhai o'r rhain fod yn bobl sydd mewn perygl isel. Gallai hyn leihau pwyslais yr Awdurdod ar aelwydydd risg uwch a mwy cymhleth.
 - Mae'r Awdurdod yn blaenoriaethu aelwydydd sy'n cael eu cyfeirio ato yn hytrach na'r rhai a nodir o ddata. Nid yw hyn yn ystyried y risgiau sy'n cael

eu peri gan bob aelwyd, sy'n golygu nad yw'n strategol nac yn amlwg yn gefnogol o ddull yr Awdurdod.

- 19 Yn ehangach, ni wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth bod yr Awdurdod wedi cymharu ei flaenoriaethau yn erbyn ei barodrwydd cyffredinol i dderbyn risg. Ac nid oedd dystiolaeth chwaith bod yr Awdurdod wedi cymharu ei ddull â ffyrdd amgen o flaenoriaethu. Nid yw'r Awdurdod wedi dangos yn eglur ei fod wedi meddwl am y cyfnewidiadau yn ei ddull blaenoriaethu. Wrth ddatblygu ei ddull, bu'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu:

- Pa ffactorau risg i ganolbwyntio arnynt?
- Pa ffactorau risg i'w diystyru?
- Sut i rannu cartrefi rhwng risg isel, ganolig, ac uchel?
- Pwy sy'n gymwys i dderbyn pa offer?

- 20 Mae'n bwysig i'r Awdurdod fod yn hyderus bod ei ddull yn cyfeirio adnoddau yn gyson at y rhai sydd yn y mwyaf o angen. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i'r Awdurdod gydbwyso hyn â pheidio ag amlygu cartrefi eraill i lefel o risg y mae'n ei hystyried yn annerbyniol. Rydym yn cydnabod bod y rhain yn benderfyniadau anodd i'r Awdurdod a swyddogion unigol eu gwneud. Ar hyn o bryd, ni all yr Awdurdod fod yn siŵr nad oes unrhyw aelwydydd wedi'u hamlygu i lefel o risg y mae'n ei ystyried yn annerbyniol.

Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau i gryfhau sut y mae'n gweithredu ei ddull o atal ond mae'n dal i fod yn waith sy'n mynd rhagddo

- 21 Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio i gryfhau'r hyfforddiant a'r sicrwydd ansawdd y mae'n eu darparu i staff sy'n gwneud gwaith diogelwch cartref. Mae'n datblygu rhaglen hyfforddi fwy strwythuredig ar gyfer gweithwyr diogelwch tân cartref arbenigol sy'n ymdrin â'r achosion mwyaf cymhleth. Yn rhan o hyn, roedd wedi nodi asiantaethau arbenigol a all o bosibl helpu i ddarparu hyfforddiant ar wahanol bynciau. Mae hwn yn gam addawol, gan y gall hefyd helpu i sicrhau bod gan staff yr arbenigedd sydd ei angen arnynt i ddarparu cyngor o ansawdd uchel. Mae criwiau tân, sy'n ymdrin ag achosion y mae'r Awdurdod yn eu hystyried sy'n llai cymhleth, hefyd yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelwch tân cartref. Mae'r Awdurdod hefyd wedi dechrau rhoi sicrwydd ansawdd ar waith, er bod hyn yn dal i fod yn gyfyngedig.
- 22 Bu lefel uchel o drosiant swyddogion mewn rhai swyddi allweddol yn ymwneud ag atal. Roedd nifer o'r swyddogion allweddol i ni eu cyfweld mewn swyddi dros dro yn hytrach na pharhaol. Os yw swyddogion yn newid swyddi yn aml, gall fod yn anodd datblygu arbenigedd, cysylltiadau, a phrosesau cyson. Codwyd y defnydd o swyddi dros dro fel pryder hefyd gan Adolygiad Diwylliant Annibynnol yr Awdurdod a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024.
- 23 Mae'r Awdurdod yn casglu data ar ei archwiliadau diogelwch cartref. Mae hyn yn cynnwys cyfran yr archwiliadau a gwblheir ar aelwydydd risg uwch. Yn 2024-25, fe wnaeth tua 31% o archwiliadau'r Awdurdod dargedu aelwydydd risg uwch.¹ Yn yr un flwyddyn, fe wnaeth tua 25% o archwiliadau dargedu aelwydydd heb unrhyw ffactorau risg. Mae'r canlyniadau hyn yn codi cwestiynau am ba un a allai'r Awdurdod wneud mwy i ganolbwyntio ei waith ar aelwydydd risg uwch. Amlinellodd swyddogion eu bod yn ceisio cynyddu cyfran yr archwiliadau risg uwch yn y dyfodol.

¹ Mae'r Awdurdod yn diffinio aelwyd fel un sy'n risg uwch os oes ganddi dri neu fwy o ffactorau risg. Yr asesiad o risg isel, canolig, ac uwch yw'r un a ddiffinnir ac a asesir gan yr Awdurdod. O ganlyniad, ni ddylid cymharu'r data hyn â data o Awdurdodau Tân ac Achub eraill sydd efallai'n defnyddio gwahanol ddiffiniadau.

Mae'r Awdurdod angen dadansoddi gwell i'w helpu i wneud dewisiadau gwario

- 24 Fel y nodwyd uchod, ni wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth bod yr Awdurdod wedi cymharu ei flaenoriaethau yn systematig ag opsiynau amgen neu â'i barodrwydd cyffredinol i dderbyn risg. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r Awdurdod fod yn siŵr ei fod yn gwneud y dewisiadau gorau am sut i wario ei gyllideb atal. Mae hefyd yn anoddach i'r Awdurdod wneud dewisiadau cytbwys am ba un a yw maint cyffredinol ei gyllideb atal yn briodol.
- 25 Mae heriau ariannu sector cyhoeddus wedi golygu penderfyniadau anodd ar draws y sector. Ariannwyd offer diogelwch cartref gan grantiau a ddyfarnwyd i dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru. Yn 2023-24, derbyniodd yr Awdurdod £330,000 i brynu offer. Ariennir gweithgarwch atal arall gan gyllideb yr Awdurdod, wedi'i hariannu gan ei ardoll ar gynghorau. Mae'r Awdurdod wedi defnyddio ei gyllideb ei hun yn aml i ariannu gwariant uwchben y lefel a ariennir gan grantiau.
- 26 Mae'r cyd-destun hwn yn golygu penderfyniadau anodd, fel cydbwysu costau staff a chostau nad ydynt yn rhai staff. Mae gan yr Awdurdod lawer llai o swyddogion diogelwch tân arbenigol nag Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru. Er enghraifft, efallai y bydd yr Awdurdod angen rheoli faint o atgyfeiriadau y mae'n eu cynhyrchu, i sicrhau bod modd parhau i reoli llwythi gwaith arbenigwyr. Er gwaethaf y cyfnewidiadau anodd hyn, ni wnaethom ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod yr Awdurdod wedi asesu'r cydbwysedd gorau rhwng costau staff a chostau nad ydynt yn rhai staff.
- 27 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Awdurdod wedi wynebu pwysau newydd o ran cyllid ar gyfer ei waith atal. Mae prisiau'r offer diogelwch cartref y mae'n ei ddarparu yn ystod ei ymweliadau wedi cynyddu. Er enghraifft, mae'r Awdurdod yn ystyried a ddylai roi'r gorau i ddarparu larymau carbon monocsid yn ystod ymweliadau. I liniaru'r heriau hyn, mae angen i'r Awdurdod fod yn eglur ynghylch pa weithgarwch y mae'n hanfodol ei ariannu o'i adnoddau ei hun.

Mae anafusion tân wedi lleihau ond mae angen i'r Awdurdod fod yn eglur ynghylch y gweithgarwch atal sy'n gweithio

- 28 Mae dysgu o'r hyn sy'n gweithio yn allweddol i helpu'r Awdurdod i wella ei ddull atal. Disgrifiodd swyddogion rai o'r dulliau y mae'r Awdurdod yn eu defnyddio i fonitro a dysgu. Roedd hyn yn cynnwys adrodd rheolaidd i uwch reolwyr a thrafodaethau anffurfiol gyda'r Comisiynwyr ar agweddau ar berfformiad. Fe wnaethant ddisgrifio casglu data ar ddigwyddiadau tân a dysgu gwersi o farwolaethau tân. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth ysgrifenedig lawn o'r prosesau hyn, sy'n cyfyngu'r sicrwydd y maent yn eu darparu.
- 29 Gallai'r Awdurdod adeiladu ar hyn ymhellach i helpu i hysbysu ei ddull. Gallai hyn gynnwys data cydraddoldeb. Ni all yr Awdurdod adolygu'r aelwydydd y mae wedi ymweld â nhw yn ôl nodweddion gwarchodedig neu ddangosyddion economaidd-gymdeithasol ar hyn o bryd. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i'r Awdurdod fonitro risgiau sy'n gysylltiedig â rhai cymunedau. Mae hefyd yn ei gwneud yn anoddach iddo ddangos ei fod yn gweithredu yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.
- 30 Mae'r Awdurdod yn gosod nifer darged o archwiliadau ac amseroedd targed ar gyfer cwblhau archwiliadau diogelwch cartref. Mae hyn yn golygu bod gan yr Awdurdod dystiolaeth o faint o amser y mae'n ei gymryd i achosion ddatblygu a chyrraedd canlyniad. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i fonitro a chynllunio gweithgarwch. Fodd bynnag, gallai targedau amser hefyd atal swyddogion rhag treulio mwy o amser ar achosion mwy cymhleth.

- 31 Gallai'r Awdurdod hefyd wneud mwy o ddefnydd o'i ddata digwyddiadau, gan gynnwys achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Gall data digwyddiadau roi gwybodaeth nid yn unig am bwy allai fod mewn perygl, ond hefyd am ffyrdd o gryfhau'r broses diogelwch cartref. Canfuwyd rhai enghreifftiau gennym lle'r oedd yr Awdurdod wedi addasu'r broses mewn ymateb i wersi neu ddigwyddiadau. Gallai wneud y broses ddysgu hon yn fwy systematig. Yn benodol, mae'n bwysig gwirio a ellir dysgu unrhyw wersi o achosion lle mae archwiliad diogelwch cartref wedi cael ei gynnal, ond mae digwyddiad yn dal i godi.
- 32 Nid yw craffu gan yr Awdurdod wedi cefnogi dysgu. Gall gofyn cwestiynau allweddol am sut y mae tanau yn cael eu hatal gynnig gwahanol safbwynt i swyddogion. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn gyfyngedig. Gall craffu gan rai nad ydynt yn swyddogion helpu i gynnig gwahanol safbwynt ar weithgarwch a helpu i nodi gwelliannau i gynorthwyo i sicrhau gwerth am arian.
- 33 Mae dysgu'r Awdurdod yn canolbwyntio ar danau sydd wedi digwydd yn hytrach na'r rhai y mae wedi eu hatal. Mae tanau annedd ac anafusion wedi gostwng yn sylweddol ers 2009-10. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn eglur ynghylch sut y mae ei weithgarwch wedi cyfrannu at hyn. Mae mesur effaith atal pan nad yw digwyddiad wedi digwydd yn amlwg yn eithriadol o anodd. Mae Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân wedi cyflawni asesiad o fanteision gwaith atal draw yn Lloegr.² Amcangyfrifodd bod gan archwiliadau diogelwch cartref enillion gros o fuddsoddiad o 267% am bob punt a wariwyd rhwng 2016 a 2019. Ni chwblhawyd unrhyw ddadansoddiad cymharol diweddar ar lefel Cymru neu Awdurdod.

² Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, *Economic and Social Value of the UKFRS*, Gorffennaf 2023

Argymhellion

- A1** Canfuwyd risgiau gennym o ran sut mae'r Awdurdod yn nodi pobl â pherygl uwch o dân. Rydym yn argymhell y dylai'r Awdurdod asesu lle allai fod ganddo fylchau yn ei ddull a dylai fynd i'r afael â'r bylchau hyn i sicrhau bod ei gamau yn targedu pobl â'r risg uchaf. Wrth wneud hyn, dylai'r Awdurdod:
- 1.1** Chwilio'n rheolaidd am risgiau y tu allan i ddata digwyddiadau'r gorffennol.
 - 1.2** Treialu dulliau o nodi pobl â risg uwch o dân sydd mewn sefyllfaoedd ynysig a mabwysiadu unrhyw ddulliau effeithiol. Dylai hyn gynnwys defnyddio data.
 - 1.3** Cynnwys cymunedau â nodweddion gwarchodedig i sicrhau dull cynhwysol.
 - 1.4** Ychwanegu camau sicrhau ansawdd i leihau'r perygl na fydd partneriaid yn atgyfeirio pobl â risg uwch o dân.
 - 1.5** Asesu pa un a allai pobl mewn perygl uwch gael eu methu o ddata presennol a pha un a oes dulliau amgen i ddod o hyd iddynt.
 - 1.6** Cymharu'r partneriaid y mae'n gweithio â nhw ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill i sicrhau cyflawnrwydd ei ddull.

- A2** Canfuwyd gennym fod yr Awdurdod angen cryfhau ei ddealltwriaeth o'r gwerth a ychwanegir gan ei weithgarwch atal. Mae hyn er mwyn cefnogi'n fwy eglur y gwaith o dargedu adnoddau i ddangos y gwerth am arian sy'n cael ei sicrhau. I wneud hyn, dylai'r Awdurdod:
- 2.1** Ddatblygu ffyrdd o asesu cyfraniad gweithgarwch atal at leihau tanau, marwolaethau tân, ac anafiadau difrifol – yn enwedig i'r rhai sydd mewn perygl uwch o dân.
- 2.2** Datblygu dull strwythuredig o asesu costau, manteision a risgiau ei ddull ac opsiynau amgen. Dylai hyn adlewyrchu parodrwydd i dderbyn risg a dyletswyddau cydraddoldeb yr Awdurdod.
- 2.3** Defnyddio ei ddull strwythuredig i adolygu ei ddiffiniadau o achosion risg isel, canolig, ac uchel ar adnoddau a ddyrennir.
- 2.4** Cydweithio ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru i sefydlu diffiniadau cyffredin i alluogi cymariaethau a dysgu rhwng Awdurdodau. Dylai hyn hefyd ystyried safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom edrych ar y dull a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod i dargedu ei waith atal tân. Fe wnaethom ganolbwyntio ar dargedu'r bobl fwyaf agored i niwed i helpu i leihau tanau a lleihau anafiadau difrifol neu farwolaeth. Fe wnaethom ganolbwyntio ein gwaith ar edrych sut mae'r Awdurdod yn gweithio gydag aelwydydd unigol.

Ni wnaethom ganolbwyntio ar waith atal arall, fel addysg ieuencid neu leihau tanau gwyllt. Ni wnaethom edrych ar atal chwaith i leihau gweithgarwch achub yr Awdurdod, fel gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd.

Fe wnaethom gwblhau ein gwaith maes rhwng mis Ionawr a mis Mai 2025. Mae amseriad ein gwaith maes yn golygu ei fod wedi'i gwblhau cyn i Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi gyhoeddi [eu hadroddiad](#) ar yr Awdurdod ym mis Mai 2025. O ganlyniad, nid yw ein canfyddiadau yn manteisio ar eu hadroddiad, fel eu canfyddiadau o ran atal.

Defnyddiodd Gweinidogion Cymru eu pwerau i ymyrryd yn y ffordd y llywodraethir yr Awdurdod ym mis Chwefror 2024. Roedd hyn mewn ymateb i sut y mae Adroddiad Diwylliant Annibynnol yr Awdurdod wedi effeithio ar ei waith. Mae pedwar Comisiynydd yn llywodraethu'r Awdurdod bellach, yn hytrach na chynghorwyr wedi'u penodi gan brif gynghorau. Roedd effaith yr adroddiad hefyd yn golygu y bu trosiant sylweddol yn yr Awdurdod o ran swyddi swyddogion allweddol. Lle mae hyn wedi effeithio ar ein sail dystiolaeth, rydym wedi ei nodi uchod.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

I ddeall dull yr Awdurdod, fe wnaethom edrych ar:

- ddealltwriaeth yr Awdurdod o bwy sydd mewn perygl o dân;
- eglurder polisi a dull yr Awdurdod;
- y partneriaid y mae'r Awdurdod yn gweithio â nhw i atal tanau;
- yr adnoddau a ddefnyddir gan yr Awdurdod i atal tanau; a'r
- gwerthusiad gan yr Awdurdod o'i weithgarwch.

Meini prawf

Hysbyswyd yr hyn y gwnaethom chwilio amdano gan amrywiaeth o ffynonellau. Roedd hyn yn cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio ein gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i ddeall sut roedd yr Awdurdod yn dangos ei fod yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Dulliau

Roedd ein dulliau yn cynnwys:

- Dadansoddi data – fe wnaethom ddadansoddi data a ddarparwyd gan yr Awdurdod ac a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru o ran gwaith atal.
- Adolygu dogfennau – fe wnaethom ddarllen dogfennau a ddarparwyd gan yr Awdurdod mewn ymateb i'n cwestiynau archwilio. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cynlluniau a dogfennau grant ar gyfer pob un o dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru, yn ogystal â chanllawiau cenedlaethol.
- Cyfweiliadau – fe wnaethom gyfweld chwe swyddog o'r Awdurdod sy'n rhan o gyflawni gweithgarwch atal.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill o Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ambarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau penodol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.